COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2000/2001

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL 2000/2001

Datganiad y Cadeirydd

Mae'r Comisiwn, yn ystod y flwyddyn, wedi gwneud ystod eang o waith o fewn y pwerau statudol sy'n rheoli ein gweithgaredd.

Er i ni gwblhau ein rhaglen gyffredinol o drefniadau etholiadol erbyn diwedd y flwyddyn flaenorol, parhaodd yr elfen o waith arolygu etholiadol gan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi cyfarwyddiadau i ni gynnal arolwg pellach o'r trefniadau etholiadol ar gyfer rhannau o Fro Morgannwg. Rydym wedi cwblhau'r arolwg hwn ac wedi cyflwyno ein Hadroddiad Terfynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn y terfyn amser a nodwyd sef mis Mawrth 2001.

Gyda'r eithriad hwn, ac wrth ystyried arolwg cymunedol a gynhaliwyd gan brif gyngor, roedd prif bwyslais ein gweithgaredd yn ymwneud â'r ddyletswydd bwysig o arolygu prif ardaloedd cyngor. Roedd ein gwaith yn hyn o beth yn rhannol yn barhad o arolygon a ddechreuwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn rhannol yn cynnwys projectau newydd. Yn fwyaf nodedig, ym mis Gorffennaf 2000, derbyniwyd Cyfarwyddiadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Wrecsam yn ardal Llangollen, Llandysilio a chymunedau cyfagos. Mae'r arolwg hwn yn parhau eleni er mwyn cyflawni'r gwaith cyn y terfyn amser a nodwyd sef mis Hydref 2001.

Caiff y manylion hyn a'n harolygon eraill eu cynnwys yn yr adroddiad ond, o'r cychwyn, hoffwn bwysleisio mai ein prif amcan yw cyflwyno cynigion er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus mewn modd annibynnol a gwrthrychol. Fel rhan o'n gweithdrefnau rydym yn ymgynghori mor eang â phosibl ac o ganlyniad, rydym wedi derbyn llawer iawn o lythyrau yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi ystyried pob sylw ac er ein bod yn gwneud cynigion y bydd rhai pobl yn anochel yn anghytuno â hwy, rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad gan ein bod yn asesu'r dystiolaeth cyn dod i'n casgliadau.

Hoffwn ddiolch i'm cyd-Gomisiynwyr a'r Ysgrifenyddiaeth am eu cymorth parhaus drwy'r flwyddyn. Pan ddaeth y contract hwn i ben ym mis Mawrth nododd y Comisiwn eu bod yn gwerthfawrogi cyfraniad Roger Knight fel Ysgrifennydd dros y pum mlynedd flaenorol ac edrychwn ymlaen at weithio â'i olynydd, Edward Lewis.

YR ATHRO ERIC SUNDERLAND OBE LL MA PhD LLD FIBiol
Cadeirydd

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD 1

- Y Comisiwn 1
- Dyletswyddau Statudol 2
- Gweithdrefn Arolygu 2

2. AMCANION 3

- Targedau 3

3. GWEITHGAREDD YN Y FLWYDDYN FLAENOROL 4

- Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol 4
- Arolygon o'r Prif Ardaloedd 5
- Arolygon o'r Cymunedau 5

4 GWAITH Y COMISIWN 6

- Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol 6
- Arolygon o'r Prif Ardaloedd 6
- Arolygon o'r Cymunedau 7

5. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC ARFER 8

- Datganiad Rheoli, Memorandwm Ariannol a Chodau 8
- Cyllideb ac Archwiliad 8
- Cynllun Iaith Gymraeg 9
- Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth 9

6. CYFRIFON 10

1. CYFLWYNIAD

Y Comisiwn

1.1 Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ym mis Mehefin 1974 o dan delerau Adran 53 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972). Dynodir swyddogaethau statudol y Comisiwn yn Adrannau 54 i 78 Deddf 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (Deddf 1994). Darpara Atodlen 8 i Ddeddf 1972 ar gyfer cyfansoddiad a threfniadau'r Comisiwn.

1.2 Nod y Comisiwn yw:

cynnal arolygon o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol yng Nghymru, gyda'r bwriad o ystyried a ddylid cyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn yn rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Aelodaeth

1.3 Cadeirydd: Yr Athro E. Sunderland OBE LL YH MA PhD LLD FIBiol,
Dirprwy Gadeirydd: Mr E. F. L. FitzHugh OBE DL YH,
Aelod: Mrs S. G. Smith LLB.

Gwneir apwyntiadau i'r Comisiwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae cyfnod swydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn ymestyn hyd at fis Rhagfyr 2001 a chyfnod Mrs. Smith yn ymestyn hyd at fis Ebrill 2002. Cadeirydd y Comisiwn Archwilio yw Mr. FitzHugh. Mae'n rhaid bod gan y Comisiwn o leiaf un person sy'n siarad Cymraeg, ac am gyfnod ei swydd, y Cadeirydd sydd â'r rôl statudol hon. Mae'r comisiynwyr ar hyn o bryd yn aelodau o gyrff cyhoeddus eraill. Mae'r Athro Sunderland yn Gadeirydd Project Gwlyptir Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd ac yn Gadeirydd y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Mae Mr FitzHugh yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae Mrs Smith yn aelod o Gomisiwn Ffiniau Cymru ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol o Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro ac yn Gadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Penfro.

Fel arfer cynhelir cyfarfodydd y Comisiwn unwaith y mis yn ôl gofynion y rhaglen waith. Mae'n arfer cyffredin gan y Comisiwn i ymweld â lleoliad yr arolygon, yn enwedig mewn perthynas ag arolygon ardaloedd (ffiniau). Er budd effeithlonrwydd, caiff archwiliadau safle eu cyfuno â chyfarfodydd y Comisiwn lle bynnag y bo'n bosibl. Cynhaliwyd deg o gyfarfodydd yn ystod 2000/01.

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol y Comisiwn, tra bod contractau'n bodoli i ddarparu gwasanaethau archwiliad mewnol, cyfreithiol, cyfrifo, cyfieithu ac argraffu.

Yr Ysgrifenyddiaeth

1.4 Lleolir ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn Nhy Caradog; 1-6 Plas St. Andrews, Caerdydd. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd 5 aelod o staff. Llenwyd swyddi'r Ysgrifennydd a'r Swyddog Mapio gan gyflogeion uniongyrchol y Comisiwn tra roedd y 3 aelod arall yn weision sifil ar secondiad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (2) a Thy'r Cwmnïau (1). Yn ystod y flwyddyn, cynyddwyd y defnydd o'r System Wybodaeth Ddaearyddol ac o ganlyniad dilewyd swydd y

Swyddog Mapio o'r sefydliad pan ddaeth ei gontract i ben ym mis Medi 2000 ac ym mis Hydref 2000 aeth swydd yr Ysgrifennydd yn un rhan amser.

Dyletswyddau Statudol

1.5 Prif ddyletswyddau'r Comisiwn yw:

Ardaloedd Llywodraeth Leol

i) cynnal arolygon o'r holl brif ardaloedd yng Nghymru at ddiben ystyried a ddylid cynnig newidiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymddangos yn rhai sy'n ddymunol i'r Comisiwn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;

ii) ystyried ceisiadau am arolygon gan awdurdodau lleol;

iii) ystyried adroddiadau a wneir gan brif gynghorau mewn perthynas ag arolygon ardaloedd cymuned a gynhaliwyd ganddynt a gwneud argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

Trefniadau Etholiadol

iv) o dan ddarpariaethau yr adran 64 newydd a ychwanegwyd at Ddeddf 1972 gan Adran 6 Deddf 1994, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl etholiad cyffredin cynghorwyr ar gyfer unrhyw un o'r prif ardaloedd yng Nghymru a gynhaliwyd ym 1995 roedd yn ofynnol i'r Comisiwn:

a) gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal honno gyda'r bwriad o ystyried y trefniadau etholiadol yn y dyfodol; a

b) llunio cynigion ar gyfer y trefniadau hynny; a

v) heb fod yn llai na deg neu bymtheng mlynedd ar ôl cwblhau'r arolwg cychwynnol ac wedi hynny, ar gyfnodau tebyg, cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal yng Nghymru.

Cyfarwyddiadau

vi) gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg o Gymru gyfan, neu o unrhyw un neu fwy o ardaloedd llywodraeth leol neu rannau o ardaloedd o'r fath yng Nghymru.

Gweithdrefn Arolygu

1.6 Mae Adran 60 Deddf 1972 yn diffinio'r canllawiau gweithdrefnol sydd i'w dilyn wrth ymgymryd â phob arolwg. Camau sylfaenol arolwg yw:

i) cyhoeddi dyddiad dechrau'r arolwg pan wahoddir awgrymiadau a sylwadau cychwynnol erbyn dyddiad penodol;

ii) cyhoeddi cynigion drafft y Comisiwn pan wahoddir sylwadau arnynt yn yr un modd erbyn dyddiad penodol; a

iii) cyhoeddi cynigion terfynol pan ddylai unrhyw sylwadau pellach gael eu cyfeirio ar ôl hyn at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. AMCANION

2.1 Noddir y Comisiwn gan Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Comisiwn yn destun i Arolygon Polisi bob pum mlynedd. Mae'r rhain yn darparu canllawiau strategol a pholisi tymor canolig ar gyfer cynlluniau blynyddol y Comisiwn. Dechreuodd y cyfnod cynllunio strategol diwethaf gydag Arolwg Polisi o'r Comisiwn a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gymreig ym 1993. Arweiniodd argymhellion yr arolwg hwnnw at gynnydd sylweddol uwch na'r lefelau blaenorol yng ngwaith y Comisiwn gan ddechrau adeg etholiad y prif gynghorau cysgodol ym mis Mai 1995, ac yn ymestyn hyd at yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ym mis Mai 1999 a thu hwnt iddynt. Roedd y rhan fwyaf o waith y Comisiwn yn ystod y cyfnod hwnnw mewn ymateb i Gyfarwyddiadau a ddosbarthwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnal arolwg o drefniadau etholiadau pob un o'r prif gynghorau yn unol ag amserlen cyflwyno i ddod i ben erbyn mis Rhagfyr 1999.

2.2 Cynhaliwyd Arolwg Polisi, i gwmpasu'r cyfnod nesaf o bum mlynedd rhwng Gorffennaf 2000 a Chwefror 2001. Roedd hyn yn arolygu pob agwedd ar waith y Comisiwn a gwnaeth argymhellion yn ymwneud â noddi, staffio, adeiladau, materion *Gwell Cymru* a chysylltiadau yn y dyfodol gyda Chomisiynau eraill gyda chyfrifoldeb dros waith tebyg. Roedd un o'r casgliadau yn nodi angen parhaus am y Comisiwn. Bydd canlyniadau'r arolwg polisi yn galluogi'r Comisiwn i gynllunio baich gwaith a gofynion adnoddau yn y dyfodol yn erbyn cefndir polisi sefydlog.

Targedau

2.3 Yn ystod yr arolwg o'r trefniadau etholiadol pennodd y Comisiwn ddeuddeg mis ar gyfer pob arolwg. Ymgorfforwyd y cyfnod hwn mewn rhaglen o arolygon etholiadol a galluogodd y Comisiwn i gyflawni'r gwaith o fewn y terfynau amser a nodwyd yn y Cyfarwyddiadau statudol. Mae'r Comisiynau cymharol yn Lloegr a'r Alban hefyd yn pennu deuddeg mis ar gyfer y math hwn o waith.

2.4 Roedd y cyfarwyddiadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Comisiwn gynnal arolygon ardal hefyd yn cynnwys terfynau amser penodedig, ac fel arfer mae'r rhain yr un fath â'r rhai ar gyfer cyfarwyddiadau trefniadau etholiadol, er y rhoddir ystyriaeth i gymhlethdod pob arolwg. Nod y Comisiwn hefyd yw cwblhau arolygon ardal a gynhaliwyd ar gais awdurdodau lleol o fewn deuddeg mis.

2.5 Caiff y gweithdrefnau i'w dilyn wrth gynnal arolwg eu diffinio yn ôl statud, gan alw ar y Comisiwn i hysbysu ac ymgynghori'n eang ac ystyried sylwadau cyn gwneud unrhyw gynigion terfynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.6 Nid oes unrhyw gyfnodau amser statudol ar gyfer yr ymgynghoriad nac unrhyw un o gamau eraill y gweithdrefnau, ac fe'u gweithredir yn ôl disgresiwn y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r angen am ddarparu digon o amser i gyflwyno safbwyntiau awdurdodau lleol a phobl eraill sydd â diddordeb. Gosodir targedau o fewn deuddeg mis i arolwg ar gyfer y camau cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, cynhyrchu adroddiadau drafft a therfynol a'r amser sydd ei angen i asesu'r materion dan sylw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried amgylchiadau penodol weithiau ac, oni bai fod terfynau amser penodedig yn bodoli, maent yn hyblyg wrth gadw at dargedau.

3. GWEITHGAREDD YN Y FLWYDDYN FLAENOROL

Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol

3.1 Ym **1999/2000**, parhaodd y Comisiwn â'r rhaglen a ddechreuodd ym 1995 i arolygu trefniadau etholiadol y 22 prif gyngor.

3.2 Cwblhawyd arolygon y trefniadau etholiadol ar gyfer y prif gynghorau canlynol o fewn y terfynau amser penodedig:

	Dyddiad cyflwyno	Targed
Tor-faen	Hydref 1999	Rhagfyr 1999
Ceredigion	Rhagfyr 1999	Rhagfyr 1999
Casnewydd (rhan bellach)	Rhagfyr 1999	Rhagfyr 1999
Sir Fynwy	Mawrth 2000	Mawrth 2000

3.3 Roedd yr arolwg pellach o drefniadau etholiadol Casnewydd yn cynnwys Cymunedau Coedcernyw, Maerun, Llanfihangel-y-Fedw, Ty-du a Pharc Tredegar a chafodd ei gynnal mewn ymateb i gyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Ionawr 1999 ar ôl i'r Comisiwn gyflwyno'r cynigion yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 1998. Diwygiwyd y terfyn amser ar gyfer arolwg Sir Fynwy yn ôl cyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn i'r wybodaeth mewn perthynas â wardiau cymunedol a ailgyfluniwyd gael ei derbyn oddi wrth y Cyngor.

3.4 Derbyniwyd cyfarwyddiadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal arolwg pellach o rannau o Fro Morgannwg erbyn 31 Mawrth 2001 ym mis Mawrth 2000.

Arolygon o'r Prif Ardaloedd

3.5 Cwblhawyd yr arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn ardal Cymunedau y Wig, Ewenni a Saint-y-brid a gynhaliwyd, i raddau helaeth, yn ystod y flwyddyn flaenorol, ym mis Gorffennaf 1999. Argymhellodd y Comisiwn na ddylid gwneud unrhyw newid i'r ffin. Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn ar 6ed Rhagfyr 1999.

3.6 Roedd yr arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (Evanstown a Gilfach Goch) yn agored i bleidlais gudd gan etholwyr Evanstown ar ôl cyhoeddi'r adroddiad drafft ym mis Mawrth 1999. Canfu'r Comisiwn fod y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn cael ei rannu gan y ffin bresennol ond o gofio bod mwyafrif clir o blaid cadw'r ffin bresennol nid argymhellodd y Comisiwn unrhyw newid yn eu hadroddiad terfynol ar 7 Ebrill 2000. (Adroddwyd bod yr arolwg hwn wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn er ei fod yn dechnegol yn cynnwys saith diwrnod yn 2000/2001).

3.7 Cwblhawyd yr arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Blaenau Gwent a Chaerffili (Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach) ym mis Chwefror 2000, gyda'r Comisiwn yn argymell newid y ffin fel bod yr ystâd ddiwydiannol gyfan o fewn Blaenau Gwent.

3.8 Ym mis Mai 1999 dechreuodd yr arolwg o'r ffin rhwng Dinas a Sir Abertawe a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ardal Heol Pontardawe. Cyhoeddwyd adroddiad drafft y Comisiwn ym mis Chwefror 2000 yn gofyn am farn pobl ar y newidiadau a gynigiwyd.

3.9 Ym mis Tachwedd 1999 dechreuodd y Comisiwn arolygu'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg yn yr ardal i'r de o draffordd yr M4.

3.10 Ym mis Tachwedd 1999 dechreuodd y Comisiwn ar yr arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn ardal Cymunedau Clunderwen a Gorllewin Llandysilio.

3.11 Ym mis Mawrth 2000 dechreuodd y Comisiwn arolygu'r ffin rhwng Sir Ceredigion a Sir Benfro lle mae'n rhannu pentref Llandudoch.

3.12 Parhawyd yr arolygon y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 3.8-3.11 yn 2000/2001.

Arolygon o'r Cymunedau

3.13 Gofynnir i Gynghorau sy'n cynnig diwygiadau i ardaloedd cymunedol eu gwneud fel argymhellion i'r Comisiwn fydd, yn ei dro, ar ôl ystyried, yn gwneud cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfrifoldeb y prif gynghorau yw arolygon o drefniadau etholiadol cymunedol, gan gynnwys newidiadau i wardiau cymunedol, er bod gan y Comisiwn bwerau wrth gefn mewn amgylchiadau penodol. Er mwyn galluogi cynghorau i rannu profiadau'r rheini sydd wedi cynnal arolygon o gymunedau, trefnodd y Comisiwn seminar ar y gweithdrefnau mewn cydweithrediad â'r Cyfarfod Agored Blynyddol ac fe'i cynhaliwyd ym mis Hydref 1999 yn Llanbedr Pont Steffan.

4. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2000/2001

Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol

4.1 Dechreuodd yr arolwg pellach (y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.4, uchod) a gyfarwyddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r trefniadau etholiadol yng Nghymunedau'r Bont-faen gyda Llanfleiddan, Dinas Powys, Llanfair, Llan-maes, Llanilltud Faerdre, Llanfihangel-ynys-Afan, Penllys, y Rhws a Sain Dunwyd ym Mro Morgannwg ym mis Mai 2000. Cyhoeddwyd Adroddiad Drafft o'r Cynigion ym mis Medi a chyhoeddwyd y Cynigion Terfynol ym mis Mawrth 2001, yn unol â'r Cyfarwyddiadau. Mae'r Cynigion Terfynol yn diwygio'r trefniadau etholiadol ar gyfer Bro Morgannwg a gyflwynwyd ym mis Mawrth 1998 gan y Comisiwn ar gyfer yr ardaloedd a nodwyd.

4.2 Mae rhaglen y Comisiwn o arolygon etholiadol yn gyflawn.

Arolygon o'r Prif Ardaloedd

4.3 Cwblhawyd yr arolwg o'r ffin rhwng Dinas a Sir Abertawe a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ardal Heol Pontardawe, y cyhoeddwyd Adroddiad Drafft mewn perhtynas ag ef ym mis Chwefror 2000, ac ym mis Gorffennaf 2000 cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol a oedd yn argymell i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y dylid adlinio'r ffin bresennol i gynnwys adeiladau 162-172 Heol Pontardawe o fewn Dinas a Sir Abertawe.

4.4 Ym mis Mai 2000 cyhoeddwyd Adroddiad ar y Cynigion Drafft ar gyfer yr arolwg rhwng Bwrdeistrefi Sirol Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg i'r de o'r M4. Ar ôl cyhoeddi'r Cynigion Drafft daeth yn amlwg efallai na hysbyswyd y Comisiwn am nifer o etholwyr ac o ganlyniad nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad cychwynnol a chaniatawyd cyfnod ychwanegol i'w galluogi i gyflwyno eu sylwadau. Cyhoeddwyd yr adroddiad Terfynol ym mis Mawrth 2001 lle yr argymhellodd y Comisiwn na ddylid adlinio'r ffin bresennol i ddilyn yr M4 ond y dylid adlinio'r ffin i gynnwys dau adeilad preswyl ym Mro Morgannwg er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

4.5 Dechreuodd yr arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn ardal Cymunedau Clunderwen a Gorllewin Llandysilio ym mis Tachwedd 1999. Gwnaeth y Comisiwn gais am fanylion ychwanegol yn ymwneud â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gan y ddau Gyngor Sir, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus gyda'r Cynghorau Cymuned dan sylw ym mis Hydref 2000 a chyhoeddwyd Cynigion Drafft ym mis Chwefror 2001.

4.6 Dechreuodd yr arolwg rhwng Sir Ceredigion a Sir Benfro ym mis Mawrth 2000 ar gais Cyngor Cymuned Llandudoch sy'n honni y dylai pentref cyfan Llandudoch ddod o fewn un awdurdod. Derbyniwyd llawer o sylwadau a chyhoeddwyd Adroddiad ar y Cynigion Drafft ym mis Rhagfyr 2000. Cyhoeddir Cynigion Terfynol y Comisiwn yn y flwyddyn 2001/2002.

4.7 Ym mis Gorffennaf 2000 rhoddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddiadau i'r Comisiwn gynnal arolwg o'r ffin rhwng Cymunedau Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl yn Sir Ddinbych a Chymunedau Penycae, Cefn, Llangollen Wledig, y Waun, Glyntraean a Llansantffraid Glyn Ceiriog ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd y cyfarwyddiadau'n cynnwys yr arweiniad canlynol:

a) dylid lleoli aneddiadau preswyl ar wahân lle y bo'n bosibl o fewn un brif ardal;

b) dylai ffiniau rhwng ardaloedd llywodraeth leol ddilyn nodweddion ffisegol amlwg fel afonydd a ffyrdd lle bynnag y bo'n bosibl; a

c) dylid ystyried effaith unrhyw gynigion ar Sir Ddinbych.

4.8 Dechreuodd yr arolwg ym mis Awst 2000. O ganlyniad hysbysodd Cyngor Sir Dinbych y Comisiwn y byddent yn ceisio cael Arolwg Barnwrol mewn perthynas â phenderfyniadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal yr arolwg hwn. Credodd y Cyngor na fyddai'n briodol cwrdd â chynrychiolwyr y Comisiwn tra'n aros am ganlyniad yr Arolwg Barnwrol. Ar ôl gwrthod caniatâd i wneud cais am Arolwg Barnwrol ar 24 Tachwedd 2000, aeth y Comisiwn ymlaen â'r arolwg a chynhaliodd gyfarfodydd gyda'r ddau brif gyngor ym mis Rhagfyr 2000 a mis Chwefror 2001 ac, ym mis Mawrth 2001, mynychodd gyfarfod blynyddol y dref a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Llangollen.

4.9 Er mwyn ystyried effaith unrhyw gynigion ar Sir Ddinbych, cyflogodd y Comisiwn ymgynghorwyr gydag arbenigedd ym maes cyllid llywodraeth leol i lunio adroddiad ar oblygiadau tebygol trosglwyddo Cymunedau Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl o Sir Ddinbych i Wrecsam. Ystyriodd y Comisiwn adroddiad yr ymgynghorydd ar 22 Mawrth 2001 a darparodd gopïau i'r prif gynghorau, Cyngor Tref Llangollen a Chyngor Cymuned Llandysilio-yn-Iâl. Roedd hefyd ar gael ar wefan y Comisiwn. Caniatawyd cyfnod i'r partïon â diddordeb roi sylwadau.

4.10 Fel y rhagwelwyd yng nghyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Comisiwn, mae'r arolwg wedi parhau yn ystod y flwyddyn bresennol.

4.11 Gofynnwyd i'r Comisiwn gynnal arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Casnewydd a Thor-faen yn ardal Llantarnam. Ar ôl ymgynghoriad rhagarweiniol, penderfynodd y Comisiwn fod digon o gyfiawnhad i gynnal arolwg a dechreuodd hyn ym mis Ionawr 2001.

Arolygon o'r Cymunedau

4.12 Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr argymhellion o dan adran 55(2) y Ddeddf i'r Comisiwn y dylid isrannu Cymuned Cynffig yn ddwy gymuned ar wahân. Cyflwynwyd ystyriaeth y Comisiwn o adroddiad y Cyngor Bwrdeistref Sirol a ddechreuwyd ym mis Hydref 2000 a chynigion yn cadarnhau argymhelliad y Cyngor Bwrdeistref Sirol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2001.

5. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC ARFER

Datganiad Rheoli, Memorandwm Ariannol a Chodau

5.1 Mae Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol cysylltiedig yn disgrifio'r berthynas rhwng y Comisiwn a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn galw am gyflwyno Cynlluniau Gweithredol Blynyddol ac Adroddiadau Blynyddol i Gynullid Cenedlaethol Cymru at ddibenion cynllunio, cyllido ac asesu perfformiad. Cynhelir cyfarfodydd cyswllt chwarterol a chyfarfod arolwg blynyddol gydag adran nawdd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn dilyn cyfarfod ar 30 Awst 2000 gydag Ysgrifennydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am Lywodraeth Leol gwahoddwyd y Comisiwn i gyflwyno eu Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Tachwedd 2000.

5.2 Mabwysiadwyd Cod Ymarfer Arfer Da ar gyfer Comisiynwyr ac mae cofrestr o fuddiannau ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol y Comisiynwyr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Gellir trefnu i'w gweld drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd yn swyddfeydd y Comisiwn. Mae yna god tebyg mewn perthynas â staff.

5.3 Mae'r Comisiwn yn cwrdd fel Pwyllgor Archwilio, wedi'i gadeirio gan Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith.

5.4 Mabwysiadwyd arferion gwaith sy'n gytûn ag egwyddorion gonestrwydd, ymgynghori a chymwynasgarwch. Er enghraifft, rhoddodd y Comisiwn gyhoeddusrwydd eang i'w bwriad i gynnal pob arolwg ac ysgrifennu at ac ymweld â'r awdurdod lleol dan sylw i drafod yr arolwg a gwahodd eu sylwadau cychwynnol. Ar gyfer pob arolwg mae'r Comisiwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ar eu cynigion drafft a'u cynigion terfynol a chyflenwir digon o gopïau o'r adroddiadau i alluogi iddynt gael eu dosbarthu am ddim i bob aelod o'r prif gyngor, cynghorau cymuned a llyfrgelloedd lleol. Mae nifer o gopïau ar gael hefyd i drigolion lleol ar gais. Rhydd gwefan y Comisiwn: www.lgbc-wales.gov.uk wybodaeth am y Comisiwn, cynnydd yr arolygon a chyfle i weld adroddiadau blaenorol. Yn ystod y flwyddyn mabwysiadodd y Comisiwn God Ymarfer ar Gwynion a Chod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth Gyhoeddus. Fel rhan o'r ail, caiff cofnodion y cytunwyd arnynt o gyfarfodydd y Comisiwn eu cyhoeddi ar y wefan.

5.5 Ym mis Hydref 2000 cynhaliodd y Comisiwn eu trydydd Cyfarfod Agored Blynyddol, yng Nghaerdydd y tro hwn.

Cyllideb ac Archwiliad

5.6 Roedd gwariant y Comisiwn ar gostau staff, taliadau gweithredol eraill a chaffaeliadau o asedion sefydlog yn ystod 2000/2001 o £282,249 ar sail ariannol o fewn y dyraniad grant-mewn-cymorth ar gyfer y flwyddyn o £327,330. Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i gyflawni gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

5.7 Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian mae cyfres gynhwysfawr o gyfarwyddiadau desg sy'n ymwneud â systemau a gweithdrefnau mewn grym. Mae Grant Thornton, archwilwyr mewnol y Comisiwn, wedi cynnal archwiliad mewnol o'r systemau a'r gweithdrefnau hyn dros sawl blwyddyn. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cynnal yr archwiliad allanol o gyllid y Comisiwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cynllun Iaith Gymraeg

5.8 Dymuna'r Comisiwn gadarnhau y gall y cyhoedd ddelio â hwy yn Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 1998, mabwysiadodd y Comisiwn eu Cynllun Iaith Gymraeg yn unol â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Gorchymyn Cynlluniau yr Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996. Mae'r Comisiwn bellach wedi cyhoeddi eu trydydd adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar weithrediad y cynllun. Wrth grynhoi, mae'r adroddiad yn cadarnhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'r mesurau, yr amserlen a'r targedau a bennir yn eu cynllun. Cynhwysir tystiolaeth o'r ymrwymiad i'r **egwyddor y bydd y Comisiwn, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal** yng nghyhoeddiadau dwyieithog yr holl adroddiadau a'r cyhoeddusrwydd y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Fodd bynnag mae'r cynllun hefyd yn cynnwys llawer o fesurau manwl eraill i ategu'r egwyddor a chyflenwir copi o'r adroddiad llawn ar gais neu gellir cael gafael arno ar wefan y Comisiwn.

Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth

5.9 Mae hyfforddiant staff wedi canolbwyntio ar y System Wybodaeth Ddaearyddol yn ystod y flwyddyn er y mynychwyd cyrsiau sy'n berthnasol i ddibenion datblygu staff eraill wedi eu mynychu.

6. CYFRIFON

RHAGAIR I'R CYFRIFON
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001

Cefndir Statudol

6.1 Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru o dan Adran 53 Deddf Llywodraeth Leol 1972 at ddibenion arolygu ardaloedd a threfniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru.

6.2 O 1 Ebrill 1995 daeth y Comisiwn yn Gorff Cyhoeddus An-Adrannol wedi'i ariannu drwy Grant-mewn-Cymorth gan y Swyddfa Gymreig ac ers 1 Gorffennaf 1999, yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPB).

6.3 Swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn, fel y nodwyd yn Neddf 1972 yw "cyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn yn rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus".

6.4 Y prif ddyletswyddau yn ôl y ddeddf yw:

i) cynnal arolygon o'r holl brif ardaloedd yng Nghymru at ddiben ystyried a ddylid cynnig newidiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ymddangos yn rhai sy'n ddymunol i'r Comisiwn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;

ii) ystyried ceisiadau am arolygon gan awdurdodau lleol yn ogystal ag argymhellion gan brif gynghorau sy'n codi o'u harolygon cymunedol eu hunain;

iii) ystyried canlyniadau arolygon a gynhaliwyd naill ai gan y Comisiwn neu gan awdurdodau lleol a gwneud argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

iv) cynnal arolwg o Gymru gyfan, neu o un neu fwy o ardaloedd llywodraeth leol neu rannau o ardaloedd o'r fath yng Nghymru, fel y cyfarwyddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

v) o dan ddarpariaethau adran 64 newydd a ychwanegwyd at Ddeddf 1972 gan Adran 6 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl etholiad cyffredin cynghorwyr ar gyfer unrhyw un o'r prif ardaloedd yng Nghymru a gynhaliwyd ym 1995 i:

a) gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal honno gyda'r bwriad o ystyried y trefniadau etholiadol yn y dyfodol; a

b) llunio cynigion ar gyfer y trefniadau hynny.

6.5 Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chytundeb y Trysorlys.

Arolwg o'r Gweithgareddau

6.6 Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd y Comisiwn arolwg pellach o drefniadau etholiadol rhan o Fwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn unol â'r Cyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2000.

6.7 Bu arolygon ffin yn rhan fawr o waith y Comisiwn yn ystod y flwyddyn. Fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol, cwblhaodd y Comisiwn ddau arolwg, parhaodd gyda dau a dechreuodd ddau.

6.8 Mae'r prif gynghorau yn gyfrifol am gynnal arolygon o ardaloedd cymunedol a threfniadau etholiadol cymunedol. Cyflwynodd un prif gyngor argymhellion ar gyfer newidiadau i ardaloedd cymunedol i'r Comisiwn eu hystyried yn ystod y flwyddyn, er y cafwyd trafodaethau gyda sawl cyngor mewn perthynas â'r gwaith hwn drwy gydol y flwyddyn.

6.9 Cyflawnodd y Comisiwn eu goblygiadau o ran rheolaeth gorfforaethol yn unol â'u Datganiad Rheoli a'u Memorandwm Ariannol, Cod Ymarfer Gorau'r Comisiynwyr a'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bu gostyngiad yn nifer aelodau staff yr ysgrifenyddiaeth pan ddilewyd swydd y mapiwr o ganlyniad i gynnydd yn y defnydd o'r GIS a newidiwyd swydd yr Ysgrifennydd yn un rhan amser i adlewyrchu lefel y gwaith a wneir ar ôl cwblhau rhaglen yr arolygon etholiadol.

Canlyniadau a Dosbarthiadau

6.10 Roedd y diffyg ar gyfer y cyfnod yn £2,636 ac fe'i trosglwyddwyd i'r cronfeydd wrth gefn. Roedd arian y llywodraeth yn £10,925 ar 31 Mawrth 2001.

Polisi Talu

6.11 Polisi talu'r Comisiwn yw talu pob anfoneb o fewn 30 diwrnod ar ôl ei derbyn. Mae'r polisi hwn yn unol â'r gofynion a nodwyd yn Government Accounting ac mae'n dilyn Cod Talu'n Brydlon y CBI. Yn 2000/2001, derbyniodd y Comisiwn 204 o anfonebau a thalodd 95% ohonynt o fewn 30 diwrnod.

Datblygiadau yn y Dyfodol

6.12 Daeth rhaglen y Comisiwn o arolygon etholiadol i ben pan gwblhawyd yr arolwg pellach o drefniadau etholiadol rhan o Fwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Bydd arolygon trefniadau etholiadol eraill yn dibynnu ar unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu geisiadau gan brif gynghorau.

6.13 Mae'r Comisiwn o dan rwymedigaeth barhaus i gynnal arolygon o ardaloedd prif gynghorau ac ystyried unrhyw argymhellion a wneir gan brif gynghorau mewn perthynas ag arolygon o ardaloedd cymunedol a gynhaliwyd ganddynt.

6.14 Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel rhan o'i ystyriaeth o "Foderneiddio Llywodraeth Leol yng Nghymru", gynnig newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n berthnasol i waith arolygu etholiadol y Comisiwn yn y dyfodol.

6.15 Cynhaliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru arolwg polisi o waith y Comisiwn rhwng mis Gorffennaf 2000 a mis Chwefror 2001. Daeth adroddiad yr arolwg i'r casgliad bod angen parhaus am waith y Comisiwn.

Aelodau'r Comisiwn

6.16 Aelodau'r Comisiwn a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn oedd:

Yr Athro E Sunderland OBE LL (Cadeirydd)
E F L FitzHugh OBE DL (Dirprwy Gadeirydd)
Mrs S G Smith

6.17 Ar 8 Mehefin 2000 ymestynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru swydd bresennol y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd tan 31 Rhagfyr 2001. Mae swydd bresennol Mrs. Smith yn rhedeg tan 31 Mawrth 2002.

Penodi Archwilwyr

6.18 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd penodedig y Comisiwn.

6.19 Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio, a gaiff ei gadeirio gan Mr. FitzHugh, bedair gwaith yn ystod y flwyddyn i ystyried pob adroddiad gan yr archwilwyr mewnol ac allanol a gweinyddu polisi twyll a gweithdrefn gwyno y Comisiwn.



EDWARD H LEWIS
Swyddog Cyfrifo
3 Medi 2001

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R COMISIWN A'R YSGRIFENNYDD

Mae gofyn i'r Comisiwn baratoi datganiad cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a benderfynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o gyflwr busnes y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn a'u hincwm a'u gwariant, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Asiantaeth:

i) ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson;

ii) barnu a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol;

iii) nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol; a

iv) paratoi'r datganiadau ariannol ar y sail busnes parhaus, oni bai ei fod yn amhriodol i tybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penodi yr uwch swyddog, yr Ysgrifennydd, fel Swyddog Cyfrifo y Comisiwn. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, yn cynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra yr arian cyhoeddus a thros gadw cofnodion cywir, wedi eu nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

DATGANIAD AR Y SYSTEM O REOLI ARIAN YN FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb dros sicrhau y caiff system effeithiol o reoli arian yn fewnol ei chynnal a'i gweithredu gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

Dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt y caiff asedau eu diogelu, y caiff trafodion eu hawdurdodi a'u cofnodi'n briodol, ac y caiff camgymeriadau neu anghysondebau materol naill ai eu hatal neu y cânt eu canfod o fewn cyfnod amserol y gall y system ei ddarparu.

Mae'r system o reoli arian yn fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth rheoli rheolaidd, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys pennu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn arbennig, mae'n cynnwys:

- systemau cyllido cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol a arolygir ac y cytunir arni gan y Comisiwn;
- arolygon rheolaidd gan y Comisiwn o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
- gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
- canllawiau caffael wedi'u diffinio'n glir.

Mae Comisiwn Llywodraeth Leol i Gymru wedi penodi archwilwyr mewnol sy'n gweithredu i safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Caiff gwaith yr archwilwyr mewnol ei lywio gan ddadansoddiad o'r risg yr amlygir y Comisiwn iddi, ac mae'r cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad risg a'r cynlluniau archwilio mewnol eu cadarnhau gan Bwyllgor Archwilio'r Comisiwn a'u cymeradwyo gennyf fi. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd yr archwilwyr mewnol a benodir yn rhoi adroddiad i mi ar weithgaredd archwilio mewnol yn y Comisiwn. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwilydd mewnol ar pa mor ddigonol ac effeithiol yw system y Comisiwn o reoli arian yn fewnol.

Caiff fy arolwg o effeithiolrwydd y system o reoli arian yn fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Archwilio sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol, swyddog ariannol y Comisiwn sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli ariannol, a'r sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull ac rwyf yn cymryd y camau rhesymol i gydymffurfio â gofyniad y Trysorlys bod datganiad o reoli'n fewnol yn cael ei baratoi ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002, yn unol ag arweiniad i'w ddosbarthu ganddynt.



EDWARD H LEWIS
Swyddog Cyfrifo
3 Medi 2001

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 17 i 26. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd drwy ailbrisio asedau sefydlog penodol a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 21 a 22.

Priod gyfrifoldebau'r Comisiwn, yr Ysgrifennydd a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 13 mae'r Comisiwn a'r Ysgrifennydd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau cysondeb y trafodion ariannol. Mae'r Comisiwn a'r Ysgrifennydd hefyd yn gyfrifol am baratoi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, wedi'u harwain gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn adrodd fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir ac a ydynt wedi'u paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, neu os nad yw'r Comisiwn wedi cadw cyfrifon priodol, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf a oes unrhyw oblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu rywbeth perthnasol sy'n anghyson â'r datganiadau ariannol.

Rwyf yn adolygu p'un a yw'r datganiad ar dudalen 14 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Comisiwn ag arweiniad y Trysorlys 'Rheolaeth gorfforaethol: datganiad ar y system o reoli arian yn fewnol'. Rwyf yn nodi os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a gafodd eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Comisiwn a'r Ysgrifennydd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Rwyf wedi cynllunio a chyflawni fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu anghysondeb arall a bod y gwariant a'r incwm ym mhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol yn gyffredinol yw cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol wrth lunio fy marn.

Barn

Yn fy marn i:

i) mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr busnes y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar 31 Mawrth 2001 ac o'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ac fe'u paratowyd yn briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a

ii) mae'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru
3 Medi 2001

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFRIF INCWM A GWARIANT
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001

	Notes	2001	2000
		£	£
INCWM GROS			
Grant-mewn-Cymorth	2	**295,093**	318,665
Trosglwyddo o Gronfa Wrth Gefn Grantiau'r Llywodraeth	9	**8,326**	12,479
		303,419	331,144
GWARIANT			
Costau staff	3	**132,583**	172,597
Dibrisiant a symiau eraill a ddilëwyd oddi ar asedau sefydlog	5	**8,326**	12,479
Cost dybiannol: Cost Cyfalaf		**984**	1,251
Costau gweithredu eraill	4	**165,323**	142,282
		307,216	328,609
Gwarged/(diffyg) gweithredu		**(3,797)**	2,535
Llog derbyniadwy		**1,078**	684
Gwrth-droi cost dybiannol y cyfalaf		**(984)**	(1,251)
Swm y gellir ei ildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru		**(901)**	(966)
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn a drosglwyddwyd i'r cronfeydd wrth gefn		**(2,636)**	3,504
DATGANIAD CRONFEYDD CADW			
Gwarged wedi'i gadw a ddygwyd ymlaen		**4,623**	1,119
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn		**(2,636)**	3,504
Gwarged wedi'i gadw a gariwyd ymlaen		**1,987**	4,623

Ystyrir pob gweithgaredd yn rhai parhaus

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 26 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

MANTOLEN
ar 31 Mawrth 2001

	Notes	2001		2000	
		£	£	£	£
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy	5		**8,938**		17,264
ASEDAU CYFREDOL					
Dyledwyr a rhagdaliadau	6	**1,986**		4,624	
Arian yn y banc/mewn llaw		**66,556**		81,942	
		68,542		86,566	
CREDYDWYR					
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	**(66,555)**		(81,943)	
ASEDAU CYFREDOL NET			**1,987**		4,623
CYFANSWM YR ASEDAU NET			**10,925**		21,887
ARIANNWYD GAN:					
CRONFEYDD WRTH GEFN					
Cyfrif Wrth Gefn Grantiau'r Llywodraeth	9		**8,938**		17,264
Cyfrif Incwm a Gwariant	9		**1,987**		4,623
			10,925		21,887

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 26 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



EDWARD H LEWIS
Ysgrifennydd a Swyddog Cyfrifo
3 Medi 2001

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

DATGANIAD LLIF ARIAN
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001

Cysoni gwarged gweithredu i fewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

	Notes	2001	2000
		£	£
Gwarged/(diffyg) gweithredu		**(3,797)**	2,535
Addasiad ar gyfer cost dybiannol – Cost Cyfalaf		**984**	1,251
Dibrisiant a symiadu eraill a ddilëwyd oddi ar asedau sefydlog		**8,326**	12,479
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn dyledwyr		**2,638**	19,479
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn credydwyr		**(15,389)**	53,268
Trosglwyddo o Gronfa Wrth Gefn Grantiau'r Llywodraeth		**(8,326)**	(12,479)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu		**(15,564)**	76,826

DATGANIAD LLIF ARIAN

Mewnlif(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu		**(15,564)**	76,826
Elw o fuddsoddi a gwasanaethu cyllid	10	**177**	18
Gwariant cyfalaf	10	**-**	(11,124)
Cyllido	10	**-**	11,124
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod		**(15,387)**	76,844

Cysoni llif arian parod i symudiad mewn cronfeydd net

Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod am y cyfnod	**(15,387)**	76,844
Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2000	**81,942**	5,098
Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2001	**66,555**	81,942

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 26 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001

	2001	2000
	£	£
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol	**(2,636)**	3,504
Symudiad yng Nghronfa Wrth Gefn Grantiau'r Llywodraeth	**(8,326)**	(1,355)
Cyfanswm yr enillion a'r (colledion) cydnabyddedig am y flwyddyn	**(10,962)**	2,149

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 26 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001

1. POLISÏAU CYFRIFO

1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratoir y cyfrifon o dan gonfensiwn cost hanesyddol ac eithrio y caiff asedau sefydlog, lle bo hynny'n briodol, eu cario ar y gwerth i'r busnes yn ôl costau cyfredol. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau bod y gofynion hynny'n gymwys. Eithrir y Comisiwn o'r gofyniad i gynhyrchu nodyn o enillion a cholledion cost hanesyddol o dan Safon Cofnodi Ariannol Rhif 3.

1.2 Prisio asedau sefydlog

Nodir asedau sefydlog ar eu gwerth i'r Comisiwn trwy gyfeirio at gostau adnewyddu cyfredol llai dibrisiant. Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu ar gost eu prynu a'u gosod a chânt eu hailbrisio yn flynyddol gan ddefnyddio mynegiad priodol. Ym marn y Comisiwn, nid oes gwahaniaeth materol rhwng y gost hanesyddol o gael dodrefn ac offer swyddfa newydd a'r gost gyfredol. Dilëir costau meddalwedd cyfrifiadur fel rhai gwirioneddol.

Caiff cynnydd neu ostyngiadau dros dro mewn gwerth bob dosbarth o ased eu cymryd i'r gronfa adbrisio wrth gefn. Codir gostyngiadau parhaol mewn gwerth ar y cyfrif Incwm a Gwariant.

1.3 Dibrisiant

Cyfrifir dibrisiant asedau sefydlog i ddileu eu cost neu brisiad dros amcangyfrif eu bywydau defnyddiol fel a ganlyn:

Offer cyfrifiadur	5 mlynedd
Dodrefn ac offer swyddfa	5 mlynedd

1.4 Grantiau'r Llywodraeth

Credydir grantiau o natur refeniw i incwm yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Caiff grantiau llywodraeth, y gellir eu derbyn am wariant cyfalaf, eu credydu i gyfrif grant llywodraeth gohiriedig a'u rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros fywyd defnyddiol disgwyliedig yr asedau perthnasol drwy symiau hafal.

1.5 Treth ar Werth (TAW)

Nid yw'r Comisiwn wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Mae'r holl wariant a phryniannau asedau sefydlog yn cynnwys y TAW berthnasol.

1.6 Pensiynau

Telir symiau priodol i'r Tâl-feistr Cyffredinol sy'n cynrychioli rhwymedigaethau croniadol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o ran pensiynau a budd-daliadau eraill tebyg i bobl

a gyflogir gan y Comisiwn ac o ran y treuliau gweinyddol y gellir eu priodoli i'r rhwymedigaethau a'u clirio.

1.7 Costau Tybiannol

i) **Cost Cyfalaf**

Fel y cyfarwyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, cynhwysir tâl cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir yn y costau gweithredu ac fe'i cyfrifir ar 6% o'r cyfalaf a ddefnyddir ar gyfartaledd.

2. GRANT-MEWN-CYMORTH

	2001 £	2000 £
Grant-mewn-Cymorth a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	**310,832**	374,720
Llai: Swm i'w ad-dalu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	**(15,739)**	(44,931)
Llai: Grant-mewn-Cymorth am wariant cyfalaf	**-**	(11,124)
Grant-mewn-Cymorth a gredydwyd i'r cyfrif Incwm a Gwariant	**295,093**	318,665

3. COSTAU STAFF AC AELODAU

	2001 £	2000 £
i) **Costau Staff ac Aelodau**		
Tâl Aelodau'r Comisiwn	**16,670**	12,462
Cyflogau	**94,657**	131,288
Yswiriant Gwladol Cyflogwyr	**7,839**	10,156
Costau pensiwn	**13,417**	18,691
	132,583	172,597
Nifer y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfartaledd	**5**	6

Ac eithrio'r Ysgrifennydd, nid enillodd unrhyw un o staff y Comisiwn fwy na £30,000.

ii) Mae cyflogeion y Comisiwn yn Weision Sifil y mae amodau Deddfau Pensiwn 1965 a 1972 a diwygiadau dilynol yn gymwys iddynt. Ar gyfer 2000-2001 talwyd cyfraniadau (ac eithrio TAW) o £17,417 (1999-2000 £18,691) i'r Tâl-feistr Cyffredinol ar gyfraddau a bennwyd o bryd i'w gilydd gan Actiwari'r Llywodraeth ac a gynghorwyd gan y Trysorlys. Ar gyfer 2000-2001 roedd y cyfraddau'n amrywio rhwng 12.0% a 16.5% o'r cyflog gros yn dibynnu ar gyflog y cyflogai.

iii) **Tâl Aelodau'r Comisiwn**

Roedd tâl aelodau'r Comisiwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau pensiwn.

Roedd cyflog Cadeirydd y Comisiwn, sef yr un a gafodd y cyflog uchaf hefyd, yn £7,584 (1999-00: £5,689). Talwyd llai na £5,000 yr un i aelodau eraill y Comisiwn.

iv) **Cyflogau a Phensiynau**

Yn unol â Chod Greenbury a DAO (GEN) 3/00, gofynnir i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ddatgelu'r manylion canlynol yn ymwneud â thâl uwch aelodau o'r staff gan gynnwys y rhai hynny sy'n gyfrifol am adrannau llunio polisi:-

Enw a Theitl	**Oedran**	**Cyflog**	**Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn pan yn 60 oed**	**Cyfanswm y Pensiwn a Gronnwyd pan yn 60 oed ar 31 Maw 01**
		£ (k)	£ (k)	£ (k)
Roger Knight Ysgrifennydd	**56**	30 – 35	0 – 2.5	0 – 5
Steve Halsall Arweinydd Tîm	**45**	25 – 30	0 – 2.5	5 – 10

Dechreuodd yr Ysgrifennydd presennol yn ei swydd ar 22 Ebrill 1996 o dan gontract sefydlog pedair blynedd a ymestynnwyd wedi hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i 31 Mawrth 2001. Roedd ei dâl yn ystod y flwyddyn yn £39,750 ac roedd yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o £5,517 (1999-00: £46,608, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o £6,505). Mae Cyflog yr Ysgrifennydd yn cynnwys bonws perfformiad. Mae'r Ysgrifennydd yn aelod cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Roedd cyfraniadau'r cyflogwr i'r cynllun yn 16.5% o gyflog yr Ysgrifennydd.

v) **Pensiynau**

Darperir buddiannau pensiwn drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun statudol sy'n darparu buddiannau ar sail "cyflog terfynol" ar ôl cyrraedd yr oedran ymddeol arferol sef 60. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae un taliad sy'n gyfwerth â 3 blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymddeol. Mae'r aelodau'n talu cyfraniadau o 1.5% o'r enillion pensiynadwy. Bydd pensiynau'n cynyddu o ran taliad yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Pan fydd person yn marw, bydd y pensiynau'n daladwy i'r cymar sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd person yn marw tra yn ei swydd, bydd y cynllun yn talu un taliad sydd ddwywaith y cyflog pensiynadwy a bydd hefyd yn darparu ychwanegiad gwasanaeth wrth gyfrif pensiwn y cymar. Mae'r ychwanegiad yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn hwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl os bydd person yn ddifrifol wael. Yn yr achos hwn, caiff pensiynau eu talu ar unwaith heb ostyngiad actiwaraidd a gydag ychwanegiad gwasanaeth fel yn achos pensiynau gwyr/gwragedd gweddw.

vi) **Cofrestr Rhoddion**

Mae'r Comisiwn hefyd yn gweithredu cofrestr rhoddion. Ni dderbyniwyd unrhyw roddion yn ystod y flwyddyn.

4. COSTAU GWEITHREDU ERAILL

	2001	2000
	£	£
Teithio a Chynhaliaeth:		
Staff	**1,843**	2,987
Aelodau'r Comisiwn	**8,302**	5,116
Ffioedd Cwrs a Hyfforddi Staff	**165**	1,909
Ffi Archwilio Allanol	**4,780**	4,876
Tâl Archwilydd Allanol ar gyfer Gwaith Archwilio Arall	**-**	470
Hysbysebu	**25,809**	26,362
Cyfieithu	**6,374**	4,992
Argraffu, post a deunydd papur	**12,567**	13,259
Ffôn	**2,845**	2,139
Costau adeiladau ac ystafelloedd	**65,744**	58,551
Llogi peiriannau swyddfa	**1,968**	1,974
Cyfreithiol a phroffesiynol	**7,508**	5,754
Costau cyfrifiadurol di-gyfalaf	**2,189**	8,934
Ffioedd ymgynghori	**21,738**	-
Arall	**3,491**	4,959
	165,323	142,282

5. ASEDAU SEFYDLOG CYFFYRDDADWY

	Offer Cyfrifiadurol	**Dodrefn ac Offer Swyddfa**	**Cyfanswm**
	£	**£**	**£**
Cost neu Brisiad			
Ar 1 Ebrill 2000	39,098	19,792	58,890
Gwarediadau	(6,884)	-	(6,884)
Ar 31 Mawrth 2001	32,214	19,792	52,006
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2000	24,207	17,419	41,626
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	4,677	862	5,539
Gostyngiad parhaol mewn gwerth	2,787	-	2,787
Gwarediadau	(6,884)	-	(6,884)
Ar 31 Mawrth 2001	24,787	18,281	43,068
Gwerth Llyfr Net			
Ar 31 Mawrth 2001	7,427	1,511	8,938
Ar 1 Ebrill 2000	14,891	2,373	17,264

Ni fu ymrwymiadau i brynu asedau sefydlog ar 31 Mawrth 2001.

Mae'r tâl a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn sef £8,326 yn cynnwys darpariaeth yn ystod y flwyddyn o £5,539 a'r gostyngiad parhaol yng ngwerth offer cyfrifiadurol o £2,787.

6. DYLEDWYR

	2001	2000
	£	£
Rhagdaliadau	**1,986**	4,624

7. CREDYDWYR: symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn

	2001	2000
	£	£
Credydwyr masnach	**37,798**	23,680
Grant-mewn-Cymorth Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ad-daladwy	**15,739**	44,931
Treth a Nawdd Cymdeithasol	**4,478**	4,167
Croniadau	**8,540**	9,165
	66,555	81,943

8. PRYDLESAU GWEITHREDU

	Adeiladau		**Peiriannau Swyddfa**	
	2001	2000	**2001**	2000
	£	£	**£**	£
Ymrwymiadau Blynyddol o dan brydlesau gweithredu sy'n dod i ben:				
Ymhen blwyddyn	**-**	-	**3,363**	1,974
Ymhen dwy i bum mlynedd	**-**	-	**-**	-
Ymhen mwy na phum mlynedd	**65,712**	45,432	**-**	-

9. SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD Y LLYWODRAETH

	Grant Llywodraeth Wrth Gefn	**Cyfrif Incwm a Gwariant**	**Cyfanswm**
	£	**£**	**£**
Gwarged am y flwyddyn	-	(2,636)	(2,636)
Grant-mewn-Cymorth gohiriedig a ryddhawyd i'r cyfrif incwm a gwariant	(8,326)	-	(8,326)
Symudiad yng Nghronfeydd y Llywodraeth am y flwyddyn	(8,326)	(2,636)	(10,962)
Cronfeydd y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2000	17,264	4,623	21,887
Cronfeydd y Llywodraeth ar 31 Mawrth 2001	8,938	1,987	10,925

10. NODIADAU I'R DATGANIAD LLIF ARIAN

LLIFAU ARIAN GROS

	2001	2000 (restated)
	£	£
Elw o fuddsoddi a gwasanaethu cyllid		
Llog a dderbyniwyd	**1,078**	684
Llog a dalwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	**(901)**	(666)
	177	18
Gwariant cyfalaf		
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol	**-**	(11,124)
Cyllido		
Swm a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf	**-**	11,124

11. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPB) a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, (gan y Swyddfa Gymreig yn flaenorol).

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiwn wedi cynnal amrywiol drafodion perthnasol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal, mae'r Comisiwn wedi cynnal nifer fach o drafodion perthnasol gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff Llywodraeth Ganolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda Thy'r Cwmnïau a'r Tâl-feistr.

Nid oes unrhyw un o aelodau'r Comisiwn, y staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Comisiwn Ffiniau Llywodraethol Leol i Gymru yn ystod y flwyddyn.